
# YSGOL CASMAEL

*Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence*



**6.9.23**

**Annwyl Rieni,**

**Croeso nôl i flwyddyn academaidd newydd yn Ysgol Casmael, rydym hefyd yn croesawu'n gynnes y teuluoedd hynny sy'n newydd i'n hysgol. Mae'n fraint croesawu 74 o ddisgyblion y tymor hwn gyda wynebau hapus, sydd yn wên o glust i glust.**

**Rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol bod rhai achosion o Croronofirws yn yr ardal, felly ystyriwch y pwyntiau canlynol wrth asesu iechyd eich plentyn,**

- Mae derbyn addysg yn bwysig ar gyfer datblygiad, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc. Ni ddylid diystyru effaith hirdymor colli addysg.

- Gall plant a phobl ifanc sydd â symptomau ysgafn barhau i fynd i'w lleoliad addysg neu eu meithrinfa. Mae symptomau ysgafn yn cynnwys y trwyn yn rhedeg, llwnc tost/dolur gwddf neu beswch ysgafn mewn plant sydd fel arall yn iach. Dylid eu hannog i orchuddio eu ceg pan fyddant yn pesychu a/neu disian. Dylent olchi eu dwylo ar ôl defnyddio neu waredu ar hancesi papur.

- Dylai plant a phobl ifanc sy'n sâl ac sydd â thymheredd uchel aros gartref. Dylent osgoi dod i gysylltiad â phobl eraill lle bo modd. Gallant fynd yn ôl i'w lleoliad addysg neu eu meithrinfa pan nad oes ganddynt dymheredd uchel bellach, ac maent yn ddigon iach i wneud hynny.

**Wrth i ni ddechrau blwyddyn newydd ac wrth i'r holl blant ddechrau treulio amser gyda'i gilydd eto, fe welwn ni ddechrau peswch ac annwyd. Ceisiwch ddefnyddio'r arweiniad a ddarperir gan y GIG, gan gofio y dylai plant â mân anhwylderau fod yn yr ysgol. Os yw eich plentyn yn sâl ac yn methu mynychu, ffoniwch yr ysgol cyn 9.30 y bore. Mae ein system bresenoldeb yn electronig, mae'n ofynnol i staff fewnbynnu data sy'n cael ei sgrinio gan y tîm presenoldeb yn Neuadd y Sir. Byddem wrth ein bodd pe bai ein presenoldeb fel ysgol eleni yn dychwelyd i'n safon presenoldeb uchel iawn cyn Covid, plis cefnogwch ni gyda hyn.**

**Y thema y tymor hwn fydd "Perthyn", gyda'r syniad o ofyn y cwestiwn – "Pwy ydw i ?"**
**Wrth i ni barhau i ddatblygu'r Cwricwlwm Newydd i Gymru mae'n hollbwysig ein bod yn gwneud defnydd o'n hardal ein hunain cymaint â phosib er mwyn i ni allu cynnig profiadau dysgu bywyd go iawn i'n disgyblion. Ar ddechrau pob thema newydd rydym yn ceisio trefnu diwrnod er mwyn tanio dychymyg y plant.**

**Mae'r tymor hwn yn nodi blwyddyn ers lansiad llawn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Eleni, fel Ysgol, byddwn yn canolbwyntio ar ddiweddaru ein systemau asesu ac olrhain cynnydd ar gyfer pob disgybl yn unol â gofynion y cwricwlwm newydd.**
**Cefnogwch ni, os gwelwch yn dda, trwy sicrhau bod eich plentyn yn gwisgo'n addas ar gyfer yr ysgol bob dydd. Gall y plant fod allan ym mhob tywydd, felly mae cot yn hanfodol. Hefyd, ceisiwch helpu'ch plentyn i gofio potel ddŵr bob dydd. Gwnewch yn siŵr bod yr holl ddillad wedi'u labelu'n glir hefyd os gwelwch yn dda.**

Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

# Ysgol Casmael

*Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence*

Bydd y dosbarthiadau Melyn a Pinc yn parhau i gael Addysg Gorfforol ar ddydd Iau, felly helpwch nhw i bacio siorts/joggers/legins cyfforddus, chrys-t ysgol ac esgidiau rhedeg. Bydd y dosbarth Glas yn cael Addysg Gorfforol ar ddydd Mawrth, a'r dosbarth Gwyrdd ar ddydd Llun gyda'r un peth yn wir am ddillad. Bydd nofio yn cychwyn bob dydd Mawrth yr wythnos nesaf i ddisgyblion blynyddoedd 3-6.

Bydd Clwb Brecwast yn rhedeg bob dydd o 8.15 – 8.45a.m. Bydd clybiau ar ôl ysgol yn cael eu hailgyflwyno'n raddol, gan ddechrau gyda ffitrwydd yr Urdd ar Fedi 20fed, fe fydd mwy o fanylion ar yr amserlen wythnosol dydd Gwener.
Bydd gwersi offerynnol yn dechrau nôl wythnos nesaf. Os oes gan eich plentyn ddiddordeb mewn derbyn gwersi llinynnau, chwythbrennau, pres, canu, piano neu gitar yna gadewch i mi wybod.

Byddaf yn parhau i greu dyddiadur o ddigwyddiadau bob dydd Gwener. Bydd y llythyr yn cael ei e-bostio a'i bostio ar wefan Ysgol Casmael. Gwnewch yn siŵr bod gan yr ysgol gyfeiriad e-bost cyfredol ar gyfer eich plentyn/plant. Bydd gwybodaeth arall hefyd yn cael ei hanfon adref trwy e-bost.


Mae gwybodaeth am brydau ysgol ar gael yn https://www.sir-benfro.gov.uk/prydau-ysgol/dewislen-ysgolion-cynradd . Bydd pob disgybl nawr yn gallu derbyn prydau ysgol am ddim, a fyddech cystal â manteisio ar y fenter newydd hon os yn bosibl. Nid yw'r cynllun hwn yn cymryd lle Cinio Ysgol am Ddim ar gyfer y dysgwyr hynny y mae eu rhieni neu warcheidwaid yn cael budd-daliadau cymhwyso, gan fod hyn yn galluogi teuluoedd i gael mynediad at gymorth ariannol arall ar gyfer costau ysgol, a gall hefyd fod o fudd mawr i'r ysgol mewn sawl ffordd. Bydd llaeth ar gael am ddim i ddisgyblion o'r Dosbarth Derbyn i flwyddyn 2. Polisi'r ysgol yw ein bod yn caniatáu byrbryd iach o ffrwythau yn unig yn ystod egwyl y bore. Hefyd dim ond dŵr mewn fflasgiau y byddwn ni'n ei ganiatáu yn yr ystafelloedd dosbarth. Rydym yn annog pob disgybl i ddod â bocs bwyd iach, cytbwys os ydyn nhw'n dewis peidio â bwyta cino ysgol. Dylai un peth melys fod yn ddigon fel rhan o'r cinio wedi'i bacio, nid ydyn yn annog bariau o siocled neu losin. Wrth siopa bwyd, ceisiwch feddwl am gynnwys un peth o'r eil cacennau a bisgedi, yn hytrach na chynnwys rhywbeth o'r eil lle mae losin a'r siocled os yn bosibl. Rydym yn caniatau sudd i yfed fel rhan o ginio wedi'i bacio. Rydym yn ysgol sy'n hybu iechyd, byddem yn gwerthfawrogi'n fawr eich cefnogaeth gyda'r mater hwn.

Gwnewch bob ymdrech i gefnogi darllen eich plentyn trwy ddarllen gyda nhw mor aml â phosib. Bydd llyfrau darllen yn cael eu hafnon gartref yn ddyddiol, mae darllen gyda'ch plentyn yn hanfodol er mwyn sicrhau cynnydd da. Fel Ysgol, rydyn yn dysgu amrywiaeth eang o sgiliau darllen i bob disgybl fel rhan o'n cwricwlwm cyfoethog ac amrywiol. Mae'r disgyblion yn darllen yn ddyddiol mewn amryw o ffyrdd, weithiau ar goedd fel rhan o wers lythrennedd, weithiau fel rhan o dasg ymchwil i gasglu gwybodaeth, weithiau bydd tasgau mwy heriol yn datblygu eu uwch sgiliau darllen. Cefnogwch eich plentyn trwy ei helpu i ddatblygu ac ymarfer y sgiliau hyn gyda chi, gan ddefnyddio llyfrau ac adnoddau ar-lein. Os oes angen unrhyw awgrymiadau neu unrhyw gefnogaeth gyda hyn arnoch chi, yna cysylltwch â'r athro dosbarth.

Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

# Ysgol Casmael

*Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence*



Fel rhan o'r cwricwlwm bydd y disgyblion yn gwneud defnydd rheolaidd o'u sgiliau TGCh. Mae'n bwysig iawn ein bod ni i gyd yn hyderus bod ein sgiliau TGCh yn gallu cefnogi dysgu'r plant os cawn ein gorfodi i gloi i lawr unwaith eto. Gwnewch yn siŵr bod gan eich plentyn fynediad i'w gyfrineiriau a'i fod yn defnyddio'r rhaglenni rydyn ni'n rhannu'n aml. Gadewch i ni wybod os nad ydych chi'n hapus i ni ddefnyddio lluniau o'ch plentyn ar Twitter, yn y cyfryngau neu ar wefan yr ysgol.

Parchwch ein polisi teithio trwy beidio â pharcio ar y rampiau tu allan i'r Ysgol, neu yrru lan i adeilad yr ysgol yn ystod y dydd, mae hyn er diogelwch eich plant.

O ran cyfathrebu, rydym ar hyn o bryd yn defnyddio E-bost, grŵp Facebook Messenger (Ysgol Casmael) a chyfrif Trydar @CriwCasmael. Mae gennym hefyd wefan sydd yn cael ei diweddaru gyda'r llythyron wythnosol (www.ysgolcasmael.co.uk ).
Byddwch yn synhwyrol ac yn briodol yn eich defnydd o'r grŵp Facebook Messenger. Os hoffech anfon e-bost at fy hun neu aelod o staff gyda phryder neu gwestiwn, defnyddiwch y cyfeiriadau isod:
Mrs. Lawrence -lawrencea9@hwbcymru.net
Mrs. James - jamesj378@hwbcymru.net
Mrs. Phillips - phillipsm104@hwbcymru.net
Mrs. George - georges30@hwbcymru.net
Mrs. Jones - evanss968@hwbcymru.net

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch a'r ysgol, cysylltwch â ni. Rydym yn gweithredu polisi drws agored. Nid oes unrhyw broblem yn rhy fach os mae'n cael effaith ar hapusrwydd plentyn.

Diolch am eich cefnogaeth,
Yr eiddoch yn gywir,
A. Lawrence,
Pennaeth.

Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL
Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk

# YSGOL CASMAEL

*Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence*

**6.9.23**

**Dear Parents,**

**Welcome back to a new academic year at Ysgol Casmael, we also warmly welcome those families who are new to our school. It is a privilege to welcome 74 pupils this term with happy smiling faces.**

**I am sure you will be aware that there are a few cases of Croronovirus in the area, so please consider the following points when assessing your child's health,**

- Attending education is important for children and young people's development, health and well-being. The long-term impact of missing education should not be underestimated.
- Children and young people with mild symptoms can continue to attend their education setting. Mild symptoms include a runny nose, sore throat, or slight cough, in children who are otherwise well. They should be encouraged to cover their mouth and nose with a disposable tissue when coughing and/or sneezing. They should wash their hands after using or disposing of tissues.
- Children and young people who are unwell and have a high temperature should stay at home. They should avoid contact with other people where they can. They can go back to their setting when they no longer have a high temperature and are well enough to attend.

**As we start a new year and as all of the children begin to spend time together again, we will see the beginning of coughs and colds. Please try and use the guidance provided by the NHS, remembering that children with minor ailments should be in school. If your child is ill and unable to attend, please ring the school before 9.30 in the morning. Our attendance system is electronic, staff are required to input data which is screened by the attendance team in County Hall. We would love for our attendance as a school this year to return to our pre Covid very high standard of attendance, please support us with this.**

**This term the chosen theme will be "Perthyn/Belonging", whilst asking the question – "Who am I?" As we continue to develop the New Curriculum for Wales it is vital that we make use of our own area as much as possible so that we can offer real life learning experiences to our pupils. At the beginning of each new theme we try to arrange for an immersion day to take place to help fire the children's imagination.**

**This term marks a year since the full launch of the new Curriculum for Wales. This year we will be concentrating on updating our assessment and tracking systems for all pupils in line with the new curriculum requirements.**


**Please help us by making sure that your child comes suitably dressed for school every day. The children may be outside in all weather, therefore a coat is essential. Also, please try to help them to remember a water bottle each day. Please make sure <u>all</u> clothing is clearly labelled.**

**The Yellow and the Pink classes will continue have P.E on a Thursday, so help them to pack comfortable shorts/joggers/leggings a school top and trainers. The Blue class will have P.E on a Tuesday, and the Green class on a Monday the same applies with regards to clothing.**

**Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL**
**Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk**

# YSGOL CASMAEL

*Pennaeth/Headteacher: Mrs Amanda Lawrence*



**Swimming will commence every Tuesday next week for pupils in years 3-6.**

**Breakfast Club will run daily from 8.15 – 8.45a.m. After school clubs will be reintroduced gradually, starting with Urdd fitness on September 20th, please see the weekly timetable on Friday for further details.**

**Instrumental lessons will start back next week. If your child is interested in receiving strings, woodwind, brass, singing, piano or guitar lessons then please let me know.**

**I will continue to create a diary of events each Friday. The letter will be emailed and posted on the Ysgol Casmael school website. Please make sure that the school has an up to date email address for your child/children. Other information will also be sent home via email.**

**Information on school meals can be found at [https://www.pembrokeshire.gov.uk/school-meals](https://www.pembrokeshire.gov.uk/school-meals). All pupils will now be able to receive free school meals, please take advantage of this new initiative if possible. This scheme does not replace Free School Meals for those learners whose parents or guardians are receiving qualifying benefits, as this allows families to access other financial support for school costs, and can also greatly benefit the school in many ways. Milk will be available, for free to pupils from Reception to year 2. The school's policy is that we allow a healthy snack of fruit only at morning break. We also only allow water in flasks in the classrooms. We encourage all pupils to bring a healthy, balanced lunchbox if they choose not to eat the school dinners. One small sweet treat should be sufficient as part of the packed lunch, bars of chocolate and sweets are not encouraged. When food shopping, try to think of including one thing from the cakes and biscuits aisle, rather than including something from the sweets and chocolates aisle if possible. Juice or squash is allowed as part of a packed lunch. We are a health promoting school, we would very much appreciate your support with this matter.**

**Please make every effort to support our teaching of reading by reading with your child as frequently as possible. Reading books will be sent home daily, reading with your child on a daily basis is essential for good progress. All pupils are taught a wide variety of reading skills as part as our rich and varied curriculum. They read daily in a variety of ways, sometimes out loud as part of literacy lesson, sometimes as part of a research task to collect information, sometimes more challenging tasks are set to develop the skills of inference and deduction. Please support your child by helping them to develop and practise these skills with you, using books and online resources. If you need any suggestions or any support with this, then please get in touch with the class teacher.**

**As part of the curriculum the pupils will be making regular use of their ICT skills. It is really important that we are all confident that our ICT skills and are able to support the children's learning. Please make sure your child has access to their passwords and makes use of the programmes that we buy into. Let us know if you are not happy for us to use photos of your child on Twitter, in the media or on the school web site.**
**Please respect our travel policy by not parking on the ramps or driving onto the school**

**Cyfeiriad/Address: Ysgol Casmael, Casmael, Hwlffordd, Sir Benfro SA62 5RL**
**Tel/Fax: 01348 881321 E-mail: head.puncheston@pembrokeshire.gov.uk**

premises during the day, this is for the safety of your children.

With regards to communication and social media, we currently make use of Email, a Facebook Messenger group (Ysgol Casmael) and a Twitter account @CriwCasmael. We also have a website which is always updated with the weekly letters (www.ysgolcasmael.co.uk). Please be considerate and appropriate in your use of the Facebook Messenger group. If you would like to email myself or a member of staff with a concern or a question then please use the addresses below:

Mrs. Lawrence -lawrencea9@hwbcymru.net
Mrs. James - jamesj378@hwbcymru.net
Mrs. Phillips - phillipsm104@hwbcymru.net
Mrs. George - georges30@hwbcymru.net
Mrs. Jones - evanss968@hwbcymru.net

If you have any concerns with regards to school, please get in touch. We operate an "open-door" policy. No problem is too small where children are concerned.

Thank you for your support,
Yours sincerely,
A. Lawrence,
Head teacher.